Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

# Ymgynghoriad ar system reoleiddio newydd gan gynnwys amodau cofrestru a chyllid

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Hydref 2025 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2025/25 |

| | |
|---|---|
| **At**: | Holl randdeiliaid addysg drydyddol |
| **Ymateber erbyn:** | 17 Rhagfyr 2025 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | cyngorrheoleiddio@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Thema:** | Rheoleiddio a Chyllid |

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r system reoleiddio newydd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd y system newydd yn cael ei rhoi ar waith yn 2026.

Gwahoddir pob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill i ymateb.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Rhagair**

Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod sy’n gryn her i'r sector trydyddol.

Rydym yn adeiladu system reoleiddio newydd ar adeg pan fo darparwyr yn wynebu pwysau sylweddol - cyfyngiadau ariannol, newidiadau demograffig, anghenion esblygol gan ddysgwyr – a hwythau’n addasu i economi a chymdeithas sy'n newid yn gyflym. Mae'r heriau hyn yn galw am ddull rheoleiddio sy'n gadarn ac yn gefnogol, dull sy'n diogelu dysgwyr a hyder y cyhoedd, gan alluogi arloesi a chynaliadwyedd, ac sydd hefyd yn cydnabod ymreolaeth yr ystod wych o ddarparwyr addysg sydd gennym ledled Cymru.

Pan wnaethom lansio cam cyntaf yr ymgynghoriad yn gynharach eleni, fe ofynnom am eich barn ynglŷn â sut y dylid taro'r cydbwysedd hwnnw. Roedd eich ymatebion yn glir ac adeiladol. Fe ddwedoch chi wrthym fod yr egwyddorion yn gywir, ond bod angen i'r fframwaith fod yn gliriach, yn fwy cymesur ac yn fwy ymarferol. Fe ofynnoch ch i ni leihau dyblygu, parchu ymreolaeth sefydliadol a sicrhau bod llais y dysgwr yn rhedeg trwy bopeth a wnawn. Fe ofynnoch chi hefyd am ragweladwyedd: llinellau amser eglur, disgwyliadau realistig a dull monitro sy'n teimlo'n deg ac yn dryloyw.

Diolch i bawb a gyfrannodd i’r ymgynghoriad cyntaf. Rydym wedi gwrando ac wedi addasu ein cynigion cychwynnol i adlewyrchu eich adborth.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer system reoleiddio sy’n symlach wrth ymdrin â hi, gyda gwahaniaeth eglur rhwng yr hyn sy'n orfodol a'r hyn sy'n gyfystyr ag arweiniad. Mae'n ceisio gwreiddio egwyddor allweddol cymesuredd, fel bod monitro a goruchwylio’n cydberthyn â risg a bod baich yn cael ei leihau lle bynnag y bo modd. Mae'n cryfhau'r ffocws ar ddysgwyr - nid dim ond o ran ansawdd a deilliannau, ond hefyd o ran sut y mae darparwyr yn ymgysylltu â dysgwyr ac yn gwarchod eu buddiannau pan fo pethau'n newid. Ac mae'n gwneud hyn i gyd gan gynnal y safonau uchel sy'n tanategu hyder mewn addysg drydyddol yng Nghymru.

Gwyddom na all rheoleiddio ddatrys pob her a wynebir gan y sector ond rydym yr un mor sicr ei fod, o’i wneud yn dda, yn gallu creu'r amodau ar gyfer ymddiriedaeth, sefydlogrwydd, cydweithio a gwella. Gall roi hyder i ddysgwyr bod eu buddiannau’n cael eu gwarchod. Gall roi i ddarparwyr yr eglurder a'r lle y mae eu hangen arnynt i gynllunio ar gyfer y dyfodol. A gall roi sicrwydd i lywodraeth a'r cyhoedd bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio’n ddoeth ac yn effeithiol.

Mae'r ail ymgynghoriad hwn yn gam pwysig ar y daith honno. Mae'n adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu ac, am y tro cyntaf, yn nodi ein cynigion llawn ar gyfer y system reoleiddio newydd. Byddwn yn parhau i weithio gyda chi i fireinio'r manylion, i brofi ein dull ac i sicrhau bod y system yr ydym yn ei hadeiladu’n un sy'n gweithio’n ymarferol yn ogystal ag mewn egwyddor.

Mae datblygu'r system reoleiddio newydd "yn broses, nid digwyddiad" i aralleirio'r dywediad enwog. Diolch am eich ymgysylltiad parhaus ac am barhau i'n cefnogi a'n herio i gyflwyno system sy'n cefnogi sector addysg drydyddol gryf, gynhwysol a gwydn i Gymru.

Yr Athro Fonesig Julie Lydon

**Cadeirydd, Aelod o'r Bwrdd**
**Medr**

James Owen

**Prif Weithredwr**
**Medr**

**Cyflwyniad**

1. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru 2022 ('Y Ddeddf') yn nodi'r gofynion o ran system reoleiddio newydd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r canlynol a gynigir gan Medr:

    - **Datganiad o Bwerau Ymyrryd**, sy'n esbonio'r pwerau ymyrryd statudol a amlinellir yn y Ddeddf.**(Atodiad A);**
    - **Fframwaith Rheoleiddio** sy'n nodi
        - ein dull rheoleiddio
        - ein dull o fonitro
        - y broses ar gyfer sut y mae'n rhaid adrodd wrth Medr, a pha fath o ddigwyddiadau y mae'n rhaid adrodd amdanynt wrth Medr
        - set lawn o Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllid drafft **(Atodiad B)**
    - **Fframwaith Ansawdd,** sy'n tanategu gofynion yr amodau a'r trefniadau monitro mewn perthynas ag ansawdd **(Atodiad C)**
    - **Cod Ymgysylltu â Dysgwyr,** sy'n cynorthwyo darparwyr a Medr i sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr a sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â phroses benderfynu eu darparwr **(Atodiad D);**
    - **Dogfen Cwestiynau Cyffredin** sy'n nodi rhai o'r ymholiadau cyffredin yr ydym wedi'u cael yn ystod gweithgarwch ymgysylltu a gwaith ymgynghori ffurfiol. **(Atodiad E);** a
    - **Rhestr termau** ar gyfer y dogfennau ymgynghori **(Atodiad F).**

2. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn i gyflawni'r dyletswyddau ymgynghori canlynol yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**:**

    - 27 (5) Amodau Cofrestru Cychwynnol
    - 28 (7) Amodau Cofrestru Parhaus Cyffredinol
    - 40 (2) Darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddydau o dan adran 39;
    - 50 (4) Fframwaith Sicrhau Ansawdd
    - 81 (3) Datganiad ar Swyddogaethau Ymyrryd
    - 126 (6) Cynlluniau Diogelu Dysgwyr, a
    - 129 (5) Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

3. Gwahoddir rhanddeiliaid i gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad trwy ein **harolwg** erbyn **17 Rhagfyr 2025.**

4. Byddwn hefyd yn cynnal rhaglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y cynigion hyn.

**Cefndir**

5. Mae'r Ddeddf yn nodi'r system y byddwn yn ei defnyddio i reoleiddio darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd y system newydd yn seiliedig ar Gofrestr ar gyfer darparwyr addysg uwch, gyda **Fframwaith Rheoleiddio** cysylltiedig sy'n cynnwys Amodau Cofrestru a Chyllid Cychwynnol a Pharhaus.

6. Bydd rhai elfennau o'r **Fframwaith Rheoleiddio** hefyd yn berthnasol i ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant eraill yng Nghymru trwy Amodau Cyllid, fel a nodir yn **Ffigur 1** a **Ffigur 2**. Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd ag Amodau Cyllid, ac mae ganddo bwerau i ymyrryd neu rybuddio Gweinidogion Llywodraeth Cymru, y mae ganddynt hwythau bwerau i ymyrryd mewn sefydliadau addysg bellach.

7. Fel a nodir yn ein **Dogfen Cwestiynau Cyffredin**, o fis Awst 2026 bydd y Gofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn cael ei lansio, a bydd y set gyntaf o ofynion cofrestru a chyllid yn dechrau bod yn berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys yr holl amodau ar wahân i'r amod Cyfle Cyfartal a'r amod Terfynau Ffioedd (a fydd yn dod i rym o fis Awst 2027). O fis Awst 2027, bydd yr holl ofynion cofrestru yn dod i rym.

***Ffigur 1 - Fframwaith Rheoleiddio***

| Amodau Cofrestru | | Amodau Cyllid |
|---|---|---|
| Cychwynnol | Parhaus | Cyllid |
| Cynaliadwyedd Ariannol | Cynaliadwyedd Ariannol | Cynaliadwyedd Ariannol |
| Llywodraethu a Rheoli | Llywodraethu a Rheoli | Llywodraethu a Rheoli |
| Ansawdd | Ansawdd | Ansawdd |
| Lles Staff a Dysgwyr | Lles Staff a Dysgwyr | Lles Staff a Dysgwyr |
| | Y Gymraeg | Y Gymraeg |
| | Cynllun Diogelu Dysgwyr | Cynllun Diogelu Dysgwyr |
| | Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | Cod Ymgysylltu â Dysgwyr |
| | Cyfle Cyfartal | Cyfle Cyfartal |
| | Gweithdrefnau Cwynion | Gweithdrefnau Cwynion |
| | Sylw i Gyngor a Chanllawiau | Sylw i Gyngor a Chanllawiau |
| | Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad | Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad |
| Trefniadau Dilysu | Trefniadau Dilysu | |
| Statws Elusennol (Categori Craidd AU yn unig) | Statws Elusennol (Categori Craidd AU yn unig) | |
| Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr | Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr | |

| | | |
|---|---|---|
| | Terfynau Ffioedd (Categori Craidd AU Yn Unig) | |
| | Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth* | |

- melyn - Amodau Cofrestru sydd hefyd yn Amodau Cyllid ar gyfer darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru
- gwyrdd - Amodau Cofrestru yn unig (h.y. nid Amodau Cyllid)

8. Mae gan Medr ddyletswyddau mewn perthynas â monitro cydymffurfedd ag Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllid, a phwerau i ymyrryd lle ceir risg o beidio â chydymffurfio ar gyfer unrhyw amodau. Bydd holl gyrsiau addysg uwch darparwyr ar y Gofrestr addysg uwch yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y trefniadau hyn. Mae **Ffigur 2** yn disgrifio sut y mae amodau'n berthnasol i wahanol rannau o'r sector trydyddol.

***Ffigur 2 – Trosolwg o sut y mae agweddau ar yr ymgynghoriad yn berthnasol i'r sector trydyddol***

| | Atodiad A | Fframwaith Rheoleiddio – Atodiad B | | | Atodiad C |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth | Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd | Amodau Cofrestru | Amodau Cyllid[1] | Monitro a Digwyddiadau Adroddadwy | Fframwaith Ansawdd |
| Addysg uwch (gan gynnwys trefniant breiniol/ is-gontractio) | ✓ | ✓ | ✗ [2] | ✓ | ✓ |
| Cyrsiau addysg uwch a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliad | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg bellach | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Prentisiaethau | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dysgu oedolion yn y gymuned | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Chweched dosbarth mewn ysgolion[3] | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ | ✓ |

[1] Efallai y bydd telerau ac amodau ar gyfer grantiau addysg uwch penodol y tu hwnt i'r amodau cyllid.
[2] Ar gyfer darparwyr breiniol, mae'r amodau cyllid canlynol yn berthnasol o dan adran 90(4) Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022: Cynlluniau Diogelu Dysgwyr, y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a Sylw i Gyngor a Chanllawiau.
[3] Dim ond amod cyllid Medr mewn perthynas ag Ansawdd trwy eu hawdurdod lleol y mae chweched dosbarth ysgol yn cael eu cwmpasu.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Drydyddol Arall[4] | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ |

9. Dylid nodi bod rhai amodau o fewn y system reoleiddio'n cael eu hategu gan ganllawiau, fframweithiau neu godau ychwanegol oherwydd eu bod yn ofynnol fel rhan o'r Ddeddf, er enghraifft ar gyfer Ansawdd ac Ymgysylltu â Dysgwyr. Yn yr un modd, mae amodau fel Cynaliadwyedd Ariannol, Llywodraethu a Rheoli, a Chyfle Cyfartal yn angen ystyried safonau allanol sylweddol neu ddyletswyddau cyfreithiol. Yn yr achosion hyn, mae canllawiau atodol yn helpu darparwyr i ddehongli a chymhwyso'r amodau mewn ffordd sy'n gymesur, yn sensitif i'r cyd-destun, ac yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau presennol. Mae amodau eraill yn fwy syml eu natur neu wedi'u gwreiddio mewn dyletswyddau statudol sefydledig, ac felly nid oes angen canllawiau ychwanegol yn eu cylch.

10. Mae'r Amodau Cofrestru a Chyllid yn nodi'r gofynion mandanol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu hateb i gydymffurfio â'r system reoleiddio. Mae'r rhain yn gyfreithiol rwymol a dyma'r sail ar gyfer monitro, sicrwydd ac ymyrraeth bosibl. Mewn cyferbyniad, nid yw canllawiau'n rhwymol ond maent yn cynorthwyo darparwyr i ddehongli a chymhwyso'r amodau, yn enwedig lle mae'r pwnc yn gymhleth, yn esblygu, neu y dylanwedir arno gan safonau allanol.

11. Un o nodau sylfaenol ein cynllun strategol yw "*Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo*". Er mwyn ategu'r nod hwn, rydym yn nodi yn ein **Dull Rheoleiddio**, ddatganiad sy'n disgrifio'r egwyddorion arweiniol y byddwn yn ymlynu wrthynt wrth gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio, gam amcanu at wireddu ein gweledigaeth "*...i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu'n greiddiol iddi."*

12. Mae ein dull yn nodi ein bod yn ymrwymedig i reoleiddio mewn modd sy'n dryloyw, yn gymesur, yn gyson ac yn seiliedig ar risg, ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd. Mae'r dull hwn yn integreiddio cryfderau rheoleiddio seiliedig-ar-reolau (cydymffurfio) a seiliedig-ar-nodau (gwella'n barhaus), gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfedd darparwyr a gyrru gwelliannau yn eu blaenau. Mae hyn wedi tanategu datblygiad y system reoleiddio newydd.

13. Mae Medr yn parhau i ddatblygu trefniadau monitro mewn perthynas â chydymffurfio â phob un o'r amodau. Ar gyfer Amodau Cofrestru neu Amodau Cyllid, bydd gennym bwerau i ymyrryd i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio. Mae datganiad o'n swyddogaethau ymyrryd a bennir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 wedi'i nodi yn ein **Datganiad o Bwerau Ymyrryd.**

14. Pan fydd darparwr yn cyflwyno mwy nag un math o ddarpariaeth, er enghraifft, addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, neu ddysgu oedolion yn y gymuned, bydd Medr yn defnyddio un dull integredig o fonitro. Mae hyn yn golygu y byddwn yn asesu cydymffurfedd ar draws pob math o ddarpariaeth mewn ffordd gydgysylltiedig, gan osgoi dyblygu a chydnabod lle ceir trawsgroesiad rhwng y gwahanol fathau hynny o ddarpariaeth (er enghraifft, ym maes Llywodraethu a Rheoli).

[4] Mae hyn yn cwmpasu unrhyw ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant drydyddol a ddarperir yng Nghymru gan ddarparwr nad yw'n cael ei reoleiddio na'i ariannu gan Medr

15. Fel sefydliad sy'n dysgu, mae Medr wedi ymrwymo i werthuso a gwella ein dull yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig asesu cydymffurfiaeth darparwyr â gofynion monitro, ond hefyd adolygu effeithiolrwydd y systemau a'r offer montro eu hunain. Byddwn yn ystyried a yw'r mecanweithiau yn darparu mewnwelediadau ystyrlon, yn cefnogi gwelliant, ac yn parhau i fod yn gymesur â'r risgiau y maent wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â nhw. Lle bo angen, byddwn yn addasu ein dull mewn ymateb i adborth o'r sector, tystiolaeth newydd a phrofiad ymarferol, gan sicrhau bod ein system reoleiddio yn esblygu mewn ffordd sy'n cefnogi atebolrwydd ac arloesedd. Byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cefnogi drwy ymgynghori â'r sector.

16. Ar gyfer addysg uwch, mae'r Gofrestr darparwyr addysg uwch yng Nghymru ('y Gofrestr') yn elfen allweddol o'r system reoleiddio newydd. Bydd dau gategori cofrestru ar gyfer darparwyr addysg uwch:

- **Darparwyr Addysg Uwch (Craidd)** - Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd a chynhaliaeth myfyrwyr Llywodraeth Cymru ar lefel ffioedd uwch, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd darparwyr yn y categori hwn hefyd yn gymwys i gael cyllid grant addysg uwch Medr.
- **Darparwyr Addysg Uwch (Amgen)** – Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd a chynhaliaeth myfyrwyr Llywodraeth Cymru ar lefel ffioedd is, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Ni fydd darparwyr yn y categori hwn yn gymwys i gael cyllid grant addysg uwch Medr.

17. Ar gyfer darparwyr addysg uwch sy'n ceisio cofrestru yn y naill gategori neu'r llall, bydd cael eu derbyn ar y Gofrestr yn amodol ar gydymffurfio ag Amodau Cofrestru Cychwynnol. Unwaith y byddant wedi'u cofrestru, bydd angen i ddarparwyr gydymffurfio ag Amodau Cofrestru Parhaus.

18. Mewn ymateb i bryder a godwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf, wrth ddiffinio ein gofynion "rhaid i" a "dylai" cychwynnol, rydym wedi ceisio adlewyrchu'r arfer cyfredol ar draws y sector trydyddol a lleihau baich ychwanegol i'r eithaf. Rydym yn disgwyl y bydd pob un ohonom - Medr, darparwyr a rhanddeiliaid - yn dysgu o brofiad cychwynnol o'r **Fframwaith Rheoleiddio** newydd o ran yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei fireinio. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd arfer da'n esblygu ar draws holl feysydd y fframwaith. O ganlyniad, rydym yn disgwyl addasu ein gofynion dros amser, yn enwedig i hybu lledaeniad arfer da a gwelliant parhaus.

19. Drwy ein dogfennaeth i gyd cyfeirir at 'rhaid i,' 'dylai' a 'bydd.' Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol.

20. **Disgwyliadau:**

### Rhaid i Ddarparwyr

Lle mae Medr yn defnyddio'r term 'rhaid i', mae'n golygu ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu'n ofyniad rheoliadol. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r gofynion hyn.

### Bydd Darparwyr Yn

Ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio camau gweithredu neu ymrwymiadau y mae

Medr yn disgwyl i ddarparwyr eu cyflawni fel rhan o'u cyfrifoldebau rheoleiddiol. Mae'r datganiadau hyn yn aml yn adlewyrchu rhwymedigaethau neu arferion safonol yn y dyfodol.

**Ein Cyngor:**

**Dylai Darparwyr**
Lle mae Medr yn defnyddio'r term *'dylai'*, mae'n cyfeirio at gamau gweithredu neu arferion y rhoddir anogaeth gref iddynt ond nad ydynt yn ofynnol yn gyfreithiol yn yr Amodau Cofrestru neu Gyllid; fodd bynnag, byddai Medr yn disgwyl i gyrff llywodraethu (neu gyrff cyfatebol) ystyried canllawiau o'r fath. Bydd Medr yn ystyried i ba raddau y mae darparwr wedi rhoi sylw dyledadwy i ddarpariaethau 'dylai' wrth asesu risg y darparwr.

21. Diffinnir rhagor o derminoleg fel rhan o'n **Rhestr Termau** a ddarperir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

## Gofynion Ymgynghori

22. Mae gofyniad statudol i Medr gyhoeddi gwybodaeth am ofynion y system reoleiddio newydd ac ymgynghori ar gryn dipyn ohoni cyn ei chyhoeddi'n derfynol. Mae'r ymgynghoriad hwn a'r ymgynghoriad blaenorol wedi'u bwriadu i ateb y gofyniad hwn.

- mae adran 27 y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Medr gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r gofynion mewn perthynas ag Amodau Cofrestru Cychwynnol ac ymgynghori ar y rhain cyn eu cyhoeddi
- mae adran 28 y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Medr gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r gofynion mewn perthynas ag Amodau Cofrestru Parhaus Cyffredinol ac ymgynghori ar y rhain cyn eu cyhoeddi
- mae adran 40 y Ddeddf yn galluogi Medr i ddyroddi canllawiau ynghylch camau sydd i'w cymryd at ddiben cydymffurfio â chyfarwyddydau (mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus) ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i Medr ymgynghori â chorff llywodraethu pob darparwr cofrestredig yr effeithir arno
- mae Adran 50 y Ddeddf yn galluogi Medr i gyhoeddi Fframweithiau Ansawdd ar yr amod ei fod yn ymgynghori cyn gwneud hynny
- mae adran 81 y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Medr gyhoeddi Datganiad sy'n nodi sut mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd ac ymgynghori ar hwn cyn ei gyhoeddi
- mae adran 126 y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Medr ddyroddi canllawiau ar baratoi ac adolygu mesurau diogelu dysgwyr ac ymgynghori ar y rhain cyn eu cyhoeddi, ac
- mae adran 129 y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Medr ymgynghori ar baratoi'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

23. Nid yw pob elfen o'r system newydd a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant. Mae'r elfennau sy'n berthnasol i ddarparwyr gwahanol fathau o ddarpariaeth wedi'u nodi yn **Ffigur 2**. Mae peth darpariaeth y mae darparwyr addysg uwch yn gyfrifol amdani yn cael ei chyflwyno trwy ddarpariaeth freiniol neu is-gontractio. Os felly, dylai darparwyr addysg uwch sicrhau bod partneriaid breiniol neu is-gontractio'n cael eu rhybuddio ynghylch yr ymgynghoriad ac yn cael y cyfle i ymateb, naill ai ar wahân neu o fewn

ymateb y partner breinio. Sylwer nad yw dynodi cyrsiau'n benodol o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.

### Adborth o Ymgynghoriad Cam Un

24. Fe wnaethom gynnal ein hymgynghoriad cyntaf i brofi cyfeiriad y system reoleiddio newydd ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru. Fe ddwedoch chi wrthym beth oedd yn dderbyniol, ble'r oedd y naws yn rhy ragnodol, a sut y gallem wneud y system gyfan yn fwy effeithiol a lleihau'r baich i'r eithaf. Mae'r adran hon yn esbonio sut yr ydym wedi gweithredu ar yr adborth hwnnw ar draws y fframwaith, ein dull rheoleiddio a'n dull o fonitro.

25. Roeddech chi'n cefnogi'r cyfeiriad teithio - rheolau eglur lle maent fwyaf o bwys, a lle i ddarparwyr wella ac arloesi. Ond fe ofynnoch chi am arwyddion cliriach ynglŷn â'r hyn sy'n ofyniad cydymffurfio a'r hyn sy'n gyfystyr â chyngor, ac roeddech arnoch eisiau sicrwydd cadarnach na fyddai ein goruchwyliaeth yn gwyro i faes rheolaeth. Rydym wedi ail-bennu cydbwysedd y fframwaith i wneud y gwahaniaethau hyn yn gliriach. Mae pob amod bellach yn amlinellu'r gwahaniaeth rhwng amodau (yr hyn y mae'n rhaid ei fodloni), gofynion cydymffurfio sy'n dangos yr amodau hynny, a chanllawiau (y mae'n rhaid i ddarparwyr eu hystyried ond y gallant fynd i'r afael â hwy mewn ffyrdd gwahanol os gallant gyfiawnhau'r dewis hwnnw). Rydym hefyd wedi cymryd gofal i ysgrifennu mewn ffordd sy'n parchu ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd, ac i esbonio sut yr ydym yn cynyddu neu'n lleihau ein hymgysylltiad trwy ein **Datganiad Ymyrryd** a'n **Datganiad Monitro.**

### Baich ac Ymgysylltu

26. Un o'r negeseuon cyson oedd y risg o faich cronnus pan fo sawl amod a phroses yn dod gyda'i gilydd. Fe ofynnoch chi i ni ailddefnyddio tystiolaeth bresennol, sicrhau bod cylchoedd yn cyd-fynd â chylchoedd cyrff eraill, a gwneud llinellau amser a thempledi'n ymarferol. Rydyn ni'n gwneud hynny mewn tair ffordd. Yn gyntaf, rydym yn defnyddio dull "ei gwneud unwaith, ei defnyddio sawl gwaith" lle mae gwybodaeth yn y cwestiwn. Lle rydych eisoes yn darparu tystiolaeth i Estyn, QAA neu gyrff perthnasol eraill, byddwn yn dibynnu arni lle bynnag y mae'n cyd-fynd â'n diben ni. Yn ail, rydym wedi sicrhau bod ein pwyntiau cynllunio a sicrwydd blynyddol yn cyd-fynd â chylchoedd y sector lle bynnag y bo modd, fel bod eich cylchoedd llywodraethu mewnol, cynllunio ariannol ac ansawdd chi'n bwydo'n naturiol i mewn i'n prosesau ni. Yn drydydd, lle mae arnom angen i chi anfon rhywbeth atom, byddwn yn darparu templedi eglur ac yn lleihau'r gofyniad adrodd gymaint ag y gallwn yn rhesymol ei wneud, gydag amseroedd cyflwyno eglur ar gyfer unrhyw ddisgwyliadau newydd.

27. Fe ddwedoch chi wrthym na fyddai model cwbl adweithiol na model ymgysylltu dwys iawn yn gweithio ar draws sector mor amrywiol. Fe ofynnoch chi am eglurder ynglŷn â diben ymgysylltu, rôl data, a sut y dylid trin gwybodaeth gynnar heb ofni canlyniadau anghymesur. Rydym bellach yn disgrifio dull cyfunol. Wrth ei graidd mae sicrwydd rheolaidd bod eich corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol), yn seiliedig ar eich gweithdrefnau sicrwydd mewnol chi eich hun, wedi adolygu a chadarnhau ei sicrwydd ynghylch yr holl amodau perthnasol, gyda hynny'n cael ei ategu (lle bynnag y bo'n bosibl) gan y dystiolaeth sydd gennych eisoes.

28. Byddwn yn casglu ac yn triongli gwybodaeth o asesiadau ansawdd allanol, data yr ydych eisoes yn ei gyflwyno trwy gasgliadau cenedlaethol, a phryderon sy'n dod i'r amlwg trwy gwynion, digwyddiadau adroddadwy neu ffynonellau eraill. Lle mae angen i ni siarad, byddwn yn gwneud hynny'n gynnar ac mewn modd cymesur, a byddwn yn glir pa un a yw sgwrs yn ymwneud â sicrwydd (h.y. cydymffurfio) ynteu'n ddeialog gynghori, strategol – fel a nodir yn ein **Datganiad Ymyrryd**.

29. Fe wnaeth sawl ymateb amlygu pwysigrwydd datblygu ar y cyd, ymddiriedaeth reoleiddiol, a diogelu statws NPISH (sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu aelwydydd) prifysgolion a cholegau hefyd. Roedd pryderon y gallai fod risg y byddai elfennau o arolgygiaeth Medr, heb ffiniau eglur, yn creu'r canfyddiad bod rheoleiddio'n ymestyn yn rhy bell – a allai fod yn sbardun ar gyfer ailddosbarthu neu danseilio annibyniaeth weithredol.

**Datganiad Monitro**

30. Mewn ymateb i'ch adborth, rydym wedi datblygu dull monitro newydd sy'n integreiddio cryfderau'r ddau fodel arfaethedig gan hefyd roi sylw dyladwy i bryderon y sector. Mae'r model diwygiedig hwn, a ddisgrifir yn llawn drwy ein **Datganiad Monitro**, yn cynnwys y newidiadau allweddol canlynol:

- Strwythur ymgysylltu cyfunol: Mae monitro'n cynnwys gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio (e.e. Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol, Digwyddiadau Adroddadwy) a, lle y bo'n briodol, deialog strategol (e.e. sgyrsiau cyfnodol gyda darparwyr). Mae'r rhain wedi'u gwahanu'n glir o ran eu bwriad, gyda deialog strategol wedi'i fframio fel gweithgarwch anghyfarwyddol a chynghorol.
- Teilwra seiliedig-ar-risg: Bydd gweithgarwch monitro'n cyd-fynd â natur y risg sy'n gysylltiedig â phob amod a natur pob darparwr. Mae ystyried risg o'r ddau safbwynt hyn yn darparu ar gyfer cymesuredd a hyblygrwydd, gan osgoi baich diangen a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol.
- Ffurflen Sicrwydd Flynyddol: Yn y ddogfen hon rydym yn amlinellu ein gweithgarwch monitro trwy ein ffurflen sicrwydd graidd - sy'n ofynnol gan bob darparwr - sy'n cadarnhau bod y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) wedi cymryd camau cadarn i sicrhau cydymffurfedd. Mae hyn yn safoni disgwyliad sylfaenol, gan ddarparu ar gyfer amrywiad uwchlaw hyn yn seiliedig ar risg.
- Eglurder ar hunanadrodd: Fe wnaethom ffurfioli pwysigrwydd datgelu'n gynnar trwy ein proses Digwyddiadau Adroddadwy ac egluro y gallai peidio ag adrodd ei hun fod yn ddiffyg cydymffurfio. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hegwyddor "dim syrpreisys" ac yn ategu diwylliant rheoleiddio ataliol.
- Gweithredu graddol a chymesur: Rydym yn cydnabod bod yr Amodau Cofrestru a Chyllid yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf, ac y bydd darparwyr yn addasu i dirwedd reoleiddiol newydd. Mewn ymateb i adborth, rydym wedi ymrwymo i ddull cymesur o roi'r system newydd ar waith. Bydd cymhwyso'r model monitro i ddechrau'n pwysleisio cymorth, deialog ac eglurder cynnar, yn hytrach nag uwchgyfeirio neu faich cydymffurfio trwm ar unwaith.

**Ansawdd**

31. Fe ofynnoch chi i ni wahanu'r llinell sylfaen o ran cydymffurfio ar gyfer ansawdd oddi wrth yr uchelgais ehangach i wella dros amser. Rydym wedi gwneud y llinell sylfaen yn eglur: mae ansawdd yn annigonol os nad yw'n ddigon i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr. Y llinell sylfaen honno yw'r hyn y mae'r amodau cofrestru a chyllid yn ei diogelu. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i roi anogaeth i wella,

ond rydym wedi cymryd gofal i sicrhau bod gofynion sy'n ymwneud â gwella'n barhaus yn canolbwyntio ar ymgysylltu - nid ydym yn disgwyl gwelliant o un flwyddyn i'r llall ar draws pob mesur, yn enwedig lle mae perfformiad eisoes yn gryf. Lle disgwylir gweithgarwch gwella, fe'i disgrifir mewn ffordd sydd o gymorth i fyfyrio a chynllunio, yn hytrach na rhagnodi un dull gweithredu.

32. Fe ofynnoch chi i ni hefyd sicrhau nad oes dyblygu â chyfundrefnau ansawdd presennol, ac am eglurder ynghylch rôl data. Rydym wedi egluro y byddwn yn defnyddio gwybodaeth o adolygiadau ac arolygiadau presennol, megis gan Estyn a QAA. Byddwn yn anelu at beidio â dyblygu prosesau ansawdd presennol, fel y bydd hunanwerthusiadau darparwyr a baratoir ar gyfer Estyn, er enghraifft, yn bodloni'r conglfaen hwnnw yn y **Fframwaith Ansawdd**. Bydd ein dadansoddiad o ddata'n seiliedig yn bennaf ar arolygon cenedlaethol presennol a bydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau dysgwyr. Byddwn yn edrych ar ddata deilliannau yn ei gyd-destun, gan ein bod yn cydnabod y gall carfannau fod yn fach, bod dulliau astudio'n wahanol, a bod amgylchiadau lleol yn bwysig. Cyn defnyddio dangosyddion perfformiad neu feincnodau newydd yn ffurfiol, neu lle gwneir newidiadau sylweddol, byddwn yn ymgynghori arnynt ac yn esbonio sut y bydd cyd-destunoli'n gweithio.

33. Fe ofynnoch chi i ni wneud llais y dysgwr a phrofiad dysgwyr yn ganolog i'r system. Fe ofynnoch chi hefyd i ni fod yn gliriach ynglŷn â mesurau diogelu ymarferol pan fo pethau'n newid. Rydym wedi cryfhau'r llinyn sy'n ymwneud â dysgwyr drwy'r Fframwaith i gyd. Mae'r Fframwaith bellach yn ei gwneud yn glir y dylai cyrff llywodraethu (neu gyrff cyfatebol) fod yn hyderus ynghylch sut y maent yn clywed ac yn ystyried barn dysgwyr, sut y mae cwynion yn cael eu clywed yn deg ac yn weladwy, a sut y gwneir trefniadau i ddiogelu dysgwyr pan fo rhaglenni, lleoliadau neu bartneriaethau'n newid. Rydym wedi mabwysiadu dull cymesur: lle mae angen gofynion neu gynlluniau, byddir yn gofyn amdanynt gyda sbardunau, fframiau amser a llwybrau clir ar gyfer ymgysylltu, nid fel baich cyffredinol, lle bynnag y bo modd. Lle ceir offer sector cyfan (er enghraifft, arolygon sy'n ategu'r rhai sydd eisoes yn cael eu defnyddio), byddwn yn treialu yn gyntaf, yn dysgu o'r canlyniadau, ac yn eu cynyddu eu defnydd ofalus.

## Cyllid a Llywodraethu

34. Fe ddwedoch chi fod peth o'r geiriad, yn enwedig ynglŷn ag ymrwymiadau ariannol, yn teimlo'n rhy agos at gymeradwyaeth, a bod rhai disgwyliadau llywodraethu'n creu risg o dorri ar draws gwahaniaethau dilys mewn modelau sefydliadol ac ymreolaeth sefydliadol. Fe ofynnoch chi hefyd am ddiffiniadau cliriach a phrosesau cyflymach, mwy rhagweladwy. Rydym wedi addasu ein hiaith a'n prosesau ac rydym wedi diffinio cwmpas yn eglurach. Mae gennym gwmpas wedi'i ddiffinio'n gliriach. Pan fo ymrwymiadau ariannol yn uwch, fel a adnabyddir gan ein trothwyon, ein rôl yw adolygu a ffurfio barn ynglŷn â chadernid trefniadau llywodraethu dros ymrwymiadau newydd arfaethedig, nid awdurdodi penderfyniad neu roi feto ar benderfyniad sy'n perthyn i'ch corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) chi. Byddwn yn gweithredu i amseroedd cyflawni ymarferol, gyda'n hadolygiad yn mynd rhagddo ochr yn ochr â'ch prosesau chi eich hun, a byddwn yn trin deunydd sensitif yn gyfrinachol.

35. Ar lywodraethu a rheoli, rydym wedi canolbwyntio ar ddeilliannau: uniondeb, tryloywder, rheolaeth fewnol gref, sicrwydd effeithiol, a diwylliant sy'n caniatáu herio a dysgu. Rydym wedi osgoi rhagnodi strwythurau lle ceir amrywiad dilys ar draws y

sector, ac rydym wedi sicrhau bod disgwyliadau'n cyd-fynd â chodau a safonau presennol fel y gallwch ddibynnu ar waith yr ydych eisoes yn ei wneud. Pan fo rheolau neu safonau arbenigol yn berthnasol, rydym wedi dileu dyblygu i sicrhau nad yw'r amodau'n creu unrhyw ddryswch.

**Gwybodaeth i Ddarpar Fyfyrwyr**

36. Mewn perthynas â gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr, fe ofynnoch chi i ni gadw disgwyliadau yn unol â'r gyfraith a chydnabod bod gwybodaeth yn newid dros amser am resymau ymarferol (gan gynnwys cylchoedd cyfieithu a llywodraethu). Rydym yn cadw at yr egwyddorion hynny. Mae disgwyliadau ynghylch gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr yn cyd-fynd ag egwyddorion diogelu defnyddwyr presennol. Rydym yn disgwyl eglurder, cywirdeb a hygyrchedd, gyda hyfforddiant cymesur i'r staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag ymgeiswyr a phrosesau gwneud cynigion. Rydym yn cydnabod na all pob newid ddigwydd ar unwaith; rydym yn nodi'n benodol bod diweddariadau wedi'u trefnu'n dderbyniol lle maent wedi'u cynllunio ac yn dryloyw. Rydym hefyd yn rhoi i ddarparwyr ffyrdd hyblyg, seiliedig-ar-dempledi o gyflwyno gwybodaeth sy'n gwasanaethu darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol heb orfodi rhestrau hir sy'n anodd i'w defnyddio.

**Adrodd a Hysbysiadau**

37. Fe ddwedoch chi wrthym y gallai'r gorgyffyrddiadau rhwng hysbysiadau ynghylch newid a llwybrau adrodd eraill achosi dryswch, ac y dylai trothwyon a llinellau amser fod yn gymesur. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn. Mae hysbysiadau bellach wedi'u fframio gan berthnasedd, gydag enghreifftiau ymarferol a rhestr fer o dystiolaeth sydd fel arfer yn setlo'r mater yn gyflym. Gall eitemau bychain fod mewn un swp ar amserlen, yn hytrach na chynhyrchu traffig cyson. Ar wahân, mae'r Broses Digwyddiadau Adroddadwy yno i roi rhybudd cynnar. Dylid tynnu sylw at faterion difrifol yn gyflym, gyda rhybudd cychwynnol byr ac yna gwybodaeth lawnach pan fydd ar gael, tra gellir anfon materion hysbysadwy eraill yn fisol. Mae diben y ddau lwybr yr un fath: dim syrpreisys ar y naill ochr na'r llall, a chyfle cyffredin i ddatrys problemau cyn iddynt waethygu.

**Data**

38. Fe wnaethoch chi hi'n glir bod yr amgylchedd data eisoes yn gymhleth. Roedd eich cais yn syml: symleiddio, ailddefnyddio, ac esbonio. Mae ein dull data bellach yn dibynnu ar dri ymrwymiad. Yn gyntaf, defnyddio'r hyn sy'n bodoli eisoes lle bynnag y bo modd, gan gynnwys cofnodion a ffurflenni cenedlaethol. Yn ail, gwneud ddiffiniadau a dulliau'n dryloyw, fel ein bod yn siarad yr un iaith pan fyddwn yn siarad am fesurau neu ddangosyddion. Yn drydydd, rhannu mewnwelediad cymharol yn ôl gyda'r sector i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio. Dros amser, bydd arnom eisiau sicrhau bod gennym setiau data cadarn a chynhwysfawr ar ddeilliannau allweddol ar gyfer dysgwyr, felly rydym yn bwriadu estyn rhai casgliadau data, megis arolygon o foddhad dysgwyr. Lle mae angen dangosyddion newydd, byddwn yn ymgynghori ac yn treialu; lle mae dangosyddion presennol yn cael eu dehongli'n wahanol ar draws y system, byddwn yn cyhoeddi nodiadau byr ar y dull i ddwyn mwy o gysondeb.

**Y System Ar y Cyfan**

39. Fe ddwedoch chi wrthym fod arnoch eisiau i'r amodau, gyda'i gilydd, ddarllen fel system gydlynol yn hytrach na chlytwaith o reolau ar wahân. Fe ofynnoch chi hefyd i ni sicrhau eu bod yn adlewyrchu themâu mawr yr ymgynghoriad: cymesuredd sy'n seiliedig ar risg, y llinyn dysgwyr, parch at ymreolaeth, a chadw ffocws ar ymarferoldeb darparu. Dyna sut yr ydym wedi eu hailddylunio. Mae'r amodau bellach yn eistedd o fewn strwythur cliriach, symlach, ac mae eu hiaith yn fwy cyson. Lle mae'r amodau'n ymwneud â dysgwyr a dysgu, mae'r pwyslais ar glywed barn dysgwyr, diogelu eu profiad pan fo pethau'n newid, a chanolbwyntio ar ddeilliannau yn hytrach na thicio bocsys. Pan fo'r amodau'n ymwneud â gallu sefydliadol - llywodraethu, cyllid, partneriaethau - maent yn canolbwyntio'n bennaf ar eich gweithdrefnau sicrwydd mewnol chi ac yn gofyn i chi ddangos bod eich prosesau'n effeithiol, yn gymesur ac yn cael eu perchnogi gan eich corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol), yn hytrach na rhagnodi ffurf neu faint penodol. Lle mae'r amodau'n ei gwneud hi'n ofynnol cyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd neu i ni, byddant yn gwneud hynny gyda thempledi clir, lle y bo'n briodol, a fframiau amser realistig. Ar draws pob amod, mae monitro'n cael ei esbonio yn yr un ffordd syml: sicrwydd rheolaidd gan y bwrdd, ailddefnyddio tystiolaeth bresennol, ymholi seiliedig-ar-risg lle y bo angen, a llwybrau clir ar gyfer rhybuddio'n gynnar.

**Penderfyniadau**

40. Fe ofynnoch chi i ni egluro'n benodol sut y mae monitro'n cysylltu â phenderfyniadau. Ar gyfer pob amod, rydym wedi adnabod y dystiolaeth leiaf y bydd ei hangen arnom i ddangos cydymffurfedd. Mae monitro yno i gadarnhau cydymffurfedd yn y rhan fwyaf o achosion ac i adnabod pryderon yn gynnar mewn achosion eraill. Pan nad yw rhywbeth yn edrych yn iawn, rydym yn dechrau trwy ymgysylltu â darparwyr a gofyn cwestiynau. Dim ond pan fo'r dystiolaeth yn ategu hynny a phan nad yw dulliau â chyffyrddiad ysgafnach wedi datrys y mater neu na fyddent yn ddigonol i ddiogelu dysgwyr yr ydym yn symud at benderfyniadau ffurfiol. Mae ein hysgol ymateb yn raddedig ac yn gymesur. Ar bob pwynt, byddwn yn esbonio ble rydym ni ar yr ysgol honno a pham. Byddwn hefyd yn glir pan fo ymgysylltu'n gynghorol o ran ei natur, fel y gall darparwyr siarad yn agored am risgiau a chynlluniau heb deimlo mai dechrau camau gorfodi yw pob sgwrs.

**Partneriaeth Gymdeithasol**

41. Pwysleisiodd undebau llafur bwysigrwydd llywodraethu cryf, cynrychiolaeth ystyrlon o blith staff a dysgwyr, a phartneriaeth gymdeithasol effeithiol. Fe godon nhw bryderon am effaith pwysau ariannol a methiannau mewn trefniadau llywodraethu ar ddiogelwch staff, ansawdd academaidd, a phrofiad dysgwr. Er bod rhai o'r materion hyn yn ymestyn y tu hwnt i gylch gwaith statudol Medr, rydym yn cydnabod eu harwyddocâd i iechyd y sector. Rydym yn ymrwymedig i'n dyletswydd strategol i hybu cydweithio rhwng darparwyr ac undebau llafur a byddwn yn cynnal ein deialog barhaus gydag undebau llafur wrth i'r system newydd gael ei rhoi ar waith.

42. Ym mhob un o'r uchod, rydym wedi ceisio ymateb i'r pryderon dilys a'r cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf, gan ddal i sicrhau y gallwn roi Fframwaith Rheoleiddio ar waith sy'n galluogi Medr i gyflawni ein cenhadaeth yn effeithiol. Mae'r gofynion wedi'u nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a rhaid eu gweithredu fel a ragnodwyd gan y Ddeddf. **Yn y cyd-destun yma, cyfrifoldeb Medr yw darparu system reoleiddio sy'n bodloni'r**

**rhwymedigaethau statudol hynny gan barhau i fod yn gymesur ac yn ymarferol**. Rydym yn ymrwymedig i'r fframiau amser gweithredu yn y Ddeddf ac i gynorthwyo darparwyr i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau o fewn y fframwaith hwnnw.

43. Mae’r adran ganlynol yn amlinellu’r cwestiynau yn ein harolwg mewn perthynas â rhannau unigol o’r ymgynghoriad hwn. O ran y fframwaith rheoleiddio (Atodiad B) nodir bod gwahaniaethau yn natur y cwestiynau ar gyfer yr Amodau neu bolisïau hynny yr ymgynghorwyd arnynt yng ngham cyntaf ein ymgynghoriad.

## Atodiad A – Datganiad o Bwerau Ymyrryd

**Mae hwn yn berthnasol i:**

- **bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru.**

44. Mae ein **Pwerau Ymyrryd** arfaethedig yn berthnasol i bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru gan bod y datganiad yn nodi ystod ein pwerau ymyrryd a sut y gellir defnyddio'r rhain i fynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfio ag Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllid. Yn seiliedig ar adborth ymgynghori, rydym bellach wedi llunio'r Datganiad o Bwerau Ymyrryd hwn fel dogfen ar wahân, i bwysleisio ei statws statudol. Mae'r Datganiad hwn yn amlinellu dim ond yr ymyriadau hynny a bennir o dan y Ddeddf a sut y gellir eu defnyddio. Mae'r holl wybodaeth arall ynghylch sut y gallwn uwchgyfeirio i ymyrraeth, gan gynnwys ymyriadau amhenodedig posibl a danategir gan swyddogaethau statudol Medr, bellach wedi'i chwmpasu yn ein Fframwaith Rheoleiddio. Mae'r Datganiad hefyd yn berthnasol i ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru nad ydynt yn cael eu rheoleiddio na'u cyllido gan Medr, gan ei fod yn amlinellu rhai pwerau ymyrryd cyfyngedig mewn perthynas ag ansawdd.

*Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Datganiad o Bwerau Ymyrryd?*

## Atodiad B - Fframwaith Rheoleiddio

**Mae hwn yn berthnasol i:**

- **Addysg uwch (gan gynnwys trefniant breiniol / is-gontractio);**
- **Cyrsiau addysg uwch a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliad;**
- **Addysg bellach;**
- **Prentisiaethau; a**
- **Dysgu oedolion yn y gymuned**

45. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynglŷn â'n dull rheoleiddio, ein Amodau Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus drafft, yn ogystal â gofynion a threfniadau monitro cysylltiedig. Ceir peth cyffredinrwydd rhwng rhai o'r Amodau Cofrestru ar gyfer darparwyr addysg uwch a'r Amodau Cyllid ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant eraill.

46. Rydym wedi llunio'r gofynion ar gyfer pob un o'r Amodau Cofrestru / Cyllid drafft ar lefel uchel. Mae hyn yn ein galluogi i gymhwyso'r amodau i amrywiaeth lawn y darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant a fydd yn cael eu rheoleiddio gan Medr. Yn unol â'n Dull Rheoleiddio, rydym wedi ceisio lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr i'r eithaf, lle bynnag y bo'n briodol, gan roi pwyslais ar drefn lle mae darparwyr yn cael eu sicrwydd eu hunain ynghylch cydymffurfio ag amodau ac yn adrodd am faterion yn rhagweithiol wrth Medr. Ar gyfer ein **Fframwaith Rheoleiddio** arfaethedig, rydym yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r canlynol:

### *Dull Rheoleiddio*

47. Ein bwriad yw bod yn rheoleiddiwr cymesur a seiliedig-ar-risg i gyrraedd y nodau yn ein Cynllun Strategol. Mewn perthynas â'n **Dull Rheoleiddio** arfaethedig:

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Dull Rheoleiddio, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

### *Trefniadau Monitro*

48. Mae ein Dull Rheoleiddio wedi goleuo'r ffordd yr ydym yn bwriadu monitro cydymffurfedd â'r Amodau Cofrestru / Cyllid, a eglurir yn ein **trefniadau monitro arfaethedig**. Mae hyn yn nodi sut y mae monitro'n goleuo ein penderfyniadau rheoleiddiol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, uwchgyfeirio i ymyrraeth. Darperir rhagor o fanylion ynghylch monitro o dan bob amod.

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Trefniadau Monitro, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

### *Proses Digwyddiadau Adroddadwy*

49. Mae ein **Proses Digwyddiadau Adroddadwy** arfaethedig yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer y digwyddiadau difrifol a'r digwyddiadau hysbysadwy hynny y mae angen adrodd amdanynt wrth Medr a sut a phryd y mae'n rhaid i ddarparwyr adrodd am y rhain. Mae'r broses yn deillio o'n Dull Rheoleiddio, sy'n rhoi pwyslais ar hunanadrodd rhagweithiol gan ddarparwyr. Mae hefyd yn elfen allweddol o'n dull o fonitro cydymffurfedd.

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Broses Digwyddiadau Adroddadwy, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

***Cynaliadwyedd Ariannol***

50. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid arfaethedig mewn perthynas â Chynaliadwyedd Ariannol** wedi tynnu ar drefniadau rheoleiddio a sicrwydd ariannol presennol mewn perthynas â darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, gan ystyried yr amgylchedd presennol a phosibl yn y dyfodol ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r gofynion ar gyfer yr amod hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd rôl Medr o ran monitro cynaliadwyedd ariannol yr holl ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol ac Amod Cofrestru Parhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ac eithrio i chweched dosbarth mewn ysgolion).

*Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Cynaliadwyedd Ariannol, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

***Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)***

51. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid arfaethedig mewn perthynas â Llywodraethu a Rheoli** (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol) yn nodi ein disgwyliadau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a rheoli darparwyr, gan gynnwys sut y maent yn rheoli eu cyllid. Er mwyn lleihau'r baich i'r eithaf, mae'r amod yn gosod rhywfaint o ddibyniaeth ar ddarparwyr i'w sicrhau eu hunain bod eu trefniadau llywodraethu a rheoli'n ddigonol, gyda darparwyr yn ceisio sicrwydd annibynnol o bryd i'w gilydd ynghylch effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol ac Amod Cofrestru Parhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ac eithrio i chweched dosbarth mewn ysgolion).

*A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Llywodraethu a Rheoli (Gan gynnwys Rheoli Ariannol), yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

***Ansawdd***

52. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid arfaethedig mewn perthynas ag Ansawdd** yn tynnu ar y Fframwaith Ansawdd drafft ac yn cofleidio cydymffurfedd sylfaenol ac yn hybu gwelliant parhaus. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus. Mae hefyd yn berthnasol i bob darparwr a gyllidir fel Amod Cyllid.

*Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Ansawdd, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

***Lles Staff a Dysgwyr***

53. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid cychwynnol a pharhaus arfaethedig mewn perthynas â Lles Staff a Dysgwyr yn** nodi gofynion i ddarparwyr fod â threfniadau effeithiol i gefnogi a hybu lles dysgwyr a staff. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ac eithrio i chweched dosbarth mewn ysgolion).

*A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? Gallai / Na allai*

*A yw gofynion y cyflwr yn gymesur? Ydynt / Nac ydynt*

*A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion? Ydy / Nac ydy*

***Y Gymraeg***

54. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid parhaus arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg** yn nodi gofynion a disgwyliadau i ddarparwyr perthnasol gymryd pob cam rhesymol i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, addysg drydyddol a ddarperir ac ymchwil a gyflawnir trwy gyfrwng y Gymraeg, a Chymraeg fel pwnc. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Parhaus. Mae hefyd yn berthnasol i bob darparwr a gyllidir fel Amod Cyllid (ac eithrio i chweched dosbarth mewn ysgolion).

*A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? Gallai / Na allai*

*A yw gofynion yr amod yn gymesur? Ydynt / Nac ydynt*

*A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion? Ydy / Nac ydy*

***Cynlluniau Diogelu Dysgwyr***

55. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid arfaethedig mewn perthynas â'r Cynlluniau Diogelu Dysgwyr** wedi'i fwriadu i gyflawni ein dyletswyddau fel a nodir yn Adran 126 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i Medr ddyroddi canllawiau ar baratoi ac adolygu cynlluniau diogelu dysgwyr. Pan roddir hysbysiad iddo, rhaid i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr fod â chynllun diogelu dysgwyr a gymeradwywyd gan Medr, ar neu cyn dyddiad a bennir gan Medr a rhaid iddo weithredu'r cynllun hwnnw. Mae canllawiau Medr yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer cynlluniau diogelu dysgwyr. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Parhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ac eithrio i chweched dosbarth mewn ysgolion).

*A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? Gallai / Na allai*

*A yw gofynion y cyflwr yn gymesur? Ydynt / Nac ydynt*

*A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion? Ydy / Nac ydy*

***Cod Ymgysylltu â Dysgwyr***

56. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid arfaethedig mewn perthynas â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr** yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i Medr baratoi a chyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys dysgwyr ym mhroses benderfynu eu darparwyr. Mae gofynion yr amod hwn wedi'u nodi yn y **Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (Atodiad D)** ac maent yn cyd-fynd â nod strategol Medr i sicrhau bod addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Parhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ond am chweched dosbarth – sydd a dyletswydd statudol i cydymffurfio gyda'r Cod.

*A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? Gallai / Na allai*

*A yw gofynion y cyflwr yn gymesur? Ydynt / Nac ydynt*

*A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion? Ydy / Nac ydy*

***Cyfle Cyfartal***

57. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid parhaus arfaethedig mewn perthynas â Chyfle Cyfartal** yn nodi gofynion i ddarparwyr gyflawni deilliannau mesuradwy sy'n gwella mynediad, cyfraddau cadw, cyrhaeddiad a dilyniant i ddysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ac i gefnogi cyfranogiad cynhwysol mewn ymchwil ac arloesi. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Parhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ac eithrio i chweched dosbarth mewn ysgolion).

*A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? Gallai / Na allai*

*A yw gofynion y cyflwr yn gymesur? Ydynt / Nac ydynt*

*A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion? Ydy / Nac ydy*

*I ba raddau rydych chi'n cytuno bod yr amod Cyfle Cyfartal a'r manylion atodol yn darparu digon o eglurder ynghylch y disgwyliadau a’r gofynion ar gyfer darparwyr?*

*Cytuno'n gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf*

*I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd yr amod Cyfle Cyfartal yn hybu gwelliannau ystyrlon mewn cyfle cyfartal i ddysgwyr ar draws y sector addysg drydyddol?*

*Cytuno'n gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf*

*Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o effaith, cyfyngiadau neu ganlyniadau anfwriadol posibl:*

***Gweithdrefnau Cwynion***

58. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid arfaethedig mewn perthynas â Gweithdrefnau Cwynion** wedi tynnu ar y ddyletswydd a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i Medr sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefnau cwynion a’u bod yn cymryd camau rhesymol i wneud dysgwyr yn ymwybodol ohonynt. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Parhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ac eithrio i chweched dosbarth mewn ysgolion).

*A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? Gallai / Na allai*

*A yw gofynion y cyflwr yn gymesur? Ydynt / Nac ydynt*

*A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion? Ydy / Nac ydy*

***Sylw i Gyngor a Chanllawiau***

59. Mae ein **Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig mewn perthynas â sylw i gyngor a chanllawiau** yn ei gwneud hi’n ofynnol i ddarparwyr roi sylw dyladwy i unrhyw gyngor neu ganllawiau a ddyroddir gan Medr. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob

darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ac eithrio i chweched dosbarth mewn ysgolion).

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Sylw i Gyngor a Chanllawiau, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

### *Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad*

60. Mae ein **Hamod Cofrestru/Cyllid arfaethedig mewn perthynas â Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad** wedi tynnu ar y ddyletswydd a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) y darparwr ddarparu a gwneud trefniadau i Medr, neu berson sydd wedi'i awdurdodi gan Medr, gael pa bynnag wybodaeth, cymorth a mynediad at gyfleusterau, systemau ac offer y darparwr all fod yn rhesymol ofynnol gan Medr. Mae'r amod hwn yn berthnasol i ddarparwyr cofrestredig fel Amod Cofrestru Parhaus. Mae hefyd yn berthnasol fel Amod Cyllid (ac eithrio chweched dosbarth ysgol).

*A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? Gallai / Na allai*

*A yw gofynion y cyflwr yn gymesur? Ydynt / Nac ydynt*

*A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion? Ydy / Nac ydy*

### *Trefniadau Dilysu*

61. Mae ein **Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Threfniadau Dilysu** wedi tynnu ar y ddyletswydd a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i ddarparwyr eu sicrhau eu hunain ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd unrhyw drefniadau dilysu sydd yn eu lle. Ystyr "trefniadau dilysu" yw trefniadau rhwng darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais (neu gofrestredig) a darparwr addysg arall y mae'r darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais yn dyfarnu cymhwyster oddi tanynt i fyfyriwr yn y darparwr arall neu'n awdurdodi'r darparwr arall i ddyfarnu cymhwyster oddi tanynt ar ei ran. Mae'r amod hwn yn berthnasol dim ond i ddarparwyr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus.

*A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? Gallai / Na allai*

*A yw gofynion y cyflwr yn gymesur? Ydynt / Nac ydynt*

*A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion? Ydy / Nac ydy*

*I ba raddau rydych chi'n cytuno y gellid ymestyn yr amod Trefniadau Dilysu (sydd, o dan y Deddf, wedi'i ddiffinio fel un sy'n berthnasol i drefniadau dilysu yn unig) mewn modd defnyddiol i ddod yn gyngor neu ganllawiau ar gyfer partneriaethau trydyddol eraill, gan gynnwys trefniadau is-gontractio?*

*Cytuno'n gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf*

*Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o effaith, cyfyngiadau neu ganlyniadau anfwriadol posibl:*

### *Statws Elusennol*

62. Mae ein **[Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Statws Elusennol]** yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob darparwr addysg uwch cofrestredig yn y Categori Craidd Addysg Uwch fod yn elusen. Mae'r amod hwn yn berthnasol fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus.

*Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Statws Elusennol, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

### *Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr*

63. Mae ein **[Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr]** yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr gydymffurfio â chyfraith defnyddwyr gan gynnwys unrhyw ganllawiau gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus.

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

### *Terfynau Ffioedd*

64. Mae ein **[Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Therfynau Ffioedd]** yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr cofrestredig yn y Categori Craidd Addysg Uwch fod â datganiad terfyn ffioedd a gymeradwywyd gan Medr a sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn uwch na'r terfyn ffioedd perthnasol. Mae'r amod hwn yn berthnasol fel Amod Cofrestru parhaus. Ni fydd yr amod terfynau ffioedd yn cael ei gymhwyso i'r Categori Amgen Addysg Uwch. Bydd cyrsiau addysg uwch lefel israddedig amser llawn perthnasol darparwyr sy'n cofrestru yn y categori Amgen Addysg Uwch yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd dysgu ar y gyfradd is (£6,355 y flwyddyn ar hyn o bryd).

*Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Terfynau Ffioedd, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

### *Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth*

65. Mae ein **[Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth]** wedi'i fwriadu i ateb y gofyniad am Amodau Cofrestru parhaus mandadol sy'n ymwneud â chywirdeb gwybodaeth a gynhwysir yng nghofnod darparwr yn y Gofrestr, yn ogystal â hysbysu am newidiadau i statws trydyddol darparwr yng Nghymru. Mae'r amod yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob darparwr addysg uwch cofrestredig yn y ddau gategori cofrestru roi gwybod i ni am unrhyw newid sy'n effeithio ar gywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y Gofrestr neu sy'n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r amod hwn yn berthnasol fel Amod Cofrestru parhaus.

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar Amod Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

## Atodiad C – Fframwaith Ansawdd

**Mae hwn yn berthnasol i:**

- **bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant a gyllidir a/neu sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru.**

66. Mae'r **Fframwaith Ansawdd** yn darparu canllawiau a gwybodaeth ynghylch polisi ac arfer lle mae ansawdd addysg drydyddol yn y cwestiwn, a bydd yn helpu darparwyr i ddangos eu bod yn bodloni'r amod. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad gwreiddiol. Bydd angen i ddarparwyr ystyried sut y maent yn ystyried y Fframwaith yng nghyd-destun eu cenhadaeth a'u darpariaeth hwy eu hunain.

67. Yn benodol, fe wnaed newidiadau i adlewyrchu'r canlynol:

- Egluro sut y mae'r Fframwaith yn adlewyrchu dulliau presennol o ymdrin ag ansawdd a'r rhyngwyneb rhwng y Fframwaith a'r dulliau hynny;
- Cynnwys diffiniad o wella'n barhaus;
- Egluro na fyddai Medr yn disgwyl cyflawni ymyriadau gyda darparwyr mewn perthynas â gwella'n barhaus oni bai bod materion ansawdd wedi cael eu hadnabod trwy ddata, gwybodaeth neu asesiad ansawdd allanol;
- Mynegi'n fwy eglur y bydd Medr yn cydnabod amrywiaeth y sector a grwpiau o ddysgwyr;
- Mwy o gydnabyddiaeth i'r amrywiaeth o ddeddfwriaeth a gofynion y mae darparwyr addysg drydyddol yn ddarostyngedig iddynt;
- Diweddaru'r diffiniad o addysg o ansawdd da;
- Gwneud yr iaith yn fwy eglur er mwyn osgoi canfyddiad bod Medr yn bwriadu tresmasu ar ymreolaeth darparwyr;
- Gwahaniaethu cliriach rhwng y conglfeini Ymgysylltu â Dysgwyr a Llais y Dysgwr, ac egluro cwmpas arfaethedig arolygon dysgwyr a fydd yn cael eu comisiynu gan Medr; a
- Dileu cyfeiriadau at fyrddau, gan fod y rhestr termau'n cynnwys byrddau o fewn y diffiniad o gyrff llywodraethu.

68. Mae'r amod wedi cael ei ddiweddaru i fod yn ofyniad i bob darparwr sydd wedi'i gofrestru gyda Medr a/neu a gyllidir gan Medr ddangos bod eu darpariaeth o ansawdd da, ac ymgysylltu â gwella'n barhaus. Bydd y Fframwaith yn cynorthwyo darparwyr i fodloni'r amod hwn.

69. Maes o law bydd angen i ni benderfynu a ddylem fynd ati'n ffurfiol i ddynodi corff ansawdd i asesu addysg uwch. Bydd gwaith ar hyn yn cael ei wneud i oleuo'r cylch nesaf o asesiadau ansawdd allanol. Byddwn hefyd yn ystyried a ddylid mabwysiadu hyd cylch cyffredin ar gyfer asesu'r holl addysg drydyddol.

70. Bydd Medr yn cael ei ddwyn i gyfrif ar lefel y sector, ac felly bydd angen i ni ddiffinio llwyddiant mewn perthynas â'r sector trydyddol yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, effeithir ar ddeilliannau ar lefel y sector gan berfformiad ar lefel darparwyr. Felly, rydym yn rhagweld y bydd angen i ni ymgysylltu ar lefel y sector ac ar lefel darparwyr i osod disgwyliadau, gan ymyrryd ar lefel darparwyr lle y bo'n briodol.

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Fframwaith Ansawdd, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennaeth reoleiddiol?*

## Atodiad D – Cod Ymgysylltu â Dysgwyr[5]

### Mae hwn yn berthnasol i:

- **bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant a gyllidir a/neu sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru**

71. Mae adran 129 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn gosod dyletswydd ar Medr i baratoi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys dysgwyr pan wneir penderfyniadau perthnasol gan eu darparwr. Disgrifir ymgysylltu â dysgwyr fel: cynrychioli buddiannau dysgwyr yn effeithiol ym mhrosesau penderfynu eu darparwr; sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i gymryd rhan ym mhrosesau penderfynu eu darparwr; a sicrhau bod dysgwyr yn gallu rhannu eu barn gyda'u darparwr ynglŷn â materion sy'n peri pryder neu sydd o ddiddordeb iddynt. Nid yw'r diffiniad o ymgysylltu â dysgwyr, at ddibenion y Cod, yn cyfeirio at ymwneud unigolyn â'i ddysgu ei hun a'i ymrwymiad i hynny.

72. Bydd y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (y Cod) yn cynorthwyo darparwyr a Medr i sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr a sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â phrosesau penderfynu eu darparwr. Bydd yn berthnasol i bob darparwr addysg drydyddol sydd wedi'i gofrestru ac a gyllidir, gan gynnwys lle mae addysg drydyddol neu hyfforddiant yn cael ei d(d)arparu ar eu rhan trwy drefniadau breiniol neu is-gontractio. Mae dyletswydd statudol ar gorff llywodraethu chweched dosbarth mewn ysgol a gynhelir i gydymffurfio â gofynion y Cod.

73. Yn unol â gwerthoedd Medr sy'n ymwneud â chydweithio a chynnwys, mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr drafft wedi cael ei ddatblygu gyda dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid y sector. Yn 2021/22, bu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Llywodraeth Cymru'n cydweithio gyda phartneriaid gan gynnwys UCM Cymru, Estyn, QAA, darparwyr dysgu a chynrychiolwyr dysgwyr i ddatblygu gweledigaeth ac egwyddorion drafft ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr. Roedd y weledigaeth a'r egwyddorion yn fan cychwyn lefel uchel ar gyfer ymgysylltiad Medr â dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r Cod.

74. Mae'r dull sy'n seiliedig ar egwyddorion wedi parhau i fod yn ganolog i'r Cod arfaethedig, gan ddarparu ar gyfer hyblygrwydd yn yr arfer o ymgysylltu â dysgwyr i adlewyrchu amrywiaeth y sector addysg drydyddol a'i ddysgwyr. I'r perwyl hwn, nid yw'r Cod yn rhagnodol ynglŷn â dulliau ymgysylltu, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar wella'n barhaus, arloesi a dull monitro sy'n canolbwyntio ar effaith ac effeithiolrwydd ymgysylltu â dysgwyr.

75. Mae Medr yn cydnabod yr amrywiaeth o ddarparwyr, darpariaeth a dysgwyr yn y sector addysg drydyddol ac yn deall y bydd darparwyr yn dechrau o wahanol fannau ar eu taith o ran ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau penderfynu mewn modd effeithiol. Ar sail gwybodaeth o'n trafodaethau gyda darparwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid y sector, mae swyddogion Medr wedi anelu at adlewyrchu dulliau amrywiol y sector o ymgysylltu â dysgwyr o fewn y Cod. Mae adborth rhanddeiliaid, gan gynnwys yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar y Fframwaith Ansawdd drafft yn gynharach eleni, wedi helpu i lunio gofynion y Cod. Bydd adborth ymgynghori hefyd

[5] O dan y Ddeddf, mae rhaid i Medr "ymgynghori â'r personau hynny y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol" ac felly mae'r adran yma yn ychwanegol i'r cwestiynau ar yr amod Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

yn goleuo dull monitro Medr, a fydd yn disgwyl i'r holl ddarparwyr werthuso effaith eu hymgysylltiad â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau i ysgogi gwelliant parhaus.

76. Er nad yw'r Cod ei hun yn rhagnodol ynglŷn â mecanweithiau ymgysylltu â dysgwyr, mae Medr yn cydnabod bod arferion, disgwyliadau a dyletswyddau presennol mewn gwahanol rannau o'r sector, y cyfeirir atynt yn y Cod. Gall Medr, dros amser, gyhoeddi canllawiau ychwanegol sy'n ymwneud ag ymgysylltu â dysgwyr y byddai'n ofynnol i ddarparwyr perthnasol roi sylw iddynt; byddai hyn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid.

77. Trwy'r Cod, mae Medr yn amcanu at gefnogi ymgysylltiad dysgwyr ar lefel darparwyr ac ar lefel y sector, trwy gyhoeddi enghreifftiau o arfer effeithiol a chanllawiau, a chyllido prosiectau dan arweiniad sefydliadau sydd ag arbenigedd perthnasol. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am eich barn ynglŷn â’r mathau o gymorth a fyddai'n helpu darparwyr yn y sector trydyddol i ateb gofynion y Cod ac i ysgogi gwelliant parhaus yn eu hymgysylltiad â dysgwyr. Bydd Medr yn cynnwys casgliadau o weithgarwch i fonitro'r Cod yn ei Adroddiad Blynyddol.

*I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn adlewyrchu amrywiaeth o ddysgwyr a darparwyr yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru?*

*Cytuno'n gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf*

*Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb.*

*I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn mynd i'r afael â'r agweddau allweddol ar ymgysylltu â dysgwyr?*

*Cytuno'n gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf*

*Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb.*

*I ba raddau ydych chi’n cytuno fod y dull fonitro yn eglur ac yn gyfatebol?*

*Ydy / Nac ydy*

*Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb.*

*I ba raddau ydych chi'n cytuno bydd ddarparwyr yn gallu cwrdd ag anghenion ffynonellau tystiolaeth heb faich gormodol?*

*Cytuno'n gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf*

*Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb.*

*Pa wybodaeth neu adnoddau ychwanegol allai gynorthwyo darparwyr i ateb gofynion y Cod?*

*Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach sy’n ymwneud â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, nodwch hwy yma:*

## Y Gymraeg

78. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynglŷn ag effaith pob un o'r elfennau uchod o'r system reoleiddio arfaethedig ar y Gymraeg.

    *Beth ydych chi'n meddwl fyddai effeithiau cadarnhaol neu negyddol tebygol ein cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

    *A oes unrhyw ystyriaethau eraill i ni roi sylw iddynt, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar: gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

    *A oes unrhyw ystyriaethau eraill i ni roi sylw iddynt, fel na fyddai ein cynigion yn cael effeithiau anffafriol, neu y byddent yn lleihau effeithiau anffafriol ar: gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?*

## Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

79. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynglŷn ag effaith pob un o'r elfennau uchod o'r system reoleiddio arfaethedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

    *A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015? Byddant / Yn rhannol / Na fyddant*

    *Rhowch fanylion os gwelwch yn dda*

## Effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

80. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynglŷn ag effaith pob un o'r elfennau uchod o'r system reoleiddio arfaethedig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

    *A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i wneud y canlynol:*

    *Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt*

    *Hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt*

    *Meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu: Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt*

    *Lleihau'r anghydraddoldebau o ran deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol? Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt*

## Asesiad Effaith

81. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol ar hil, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a chred. Rydym hefyd wedi ystyried effaith y cynigion hyn ar y Gymraeg, darpariaeth Gymraeg yn y sector trydyddol yng Nghymru, nodweddion economaidd-gymdeithasol a'r effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

82. Mae'r Fframwaith yn cynnwys ffocws cryf ar ddadansoddi data, gan gynnwys nodweddion personol dysgwyr lle y bo'r data ar gael, a fydd yn galluogi Medr i adnabod tueddiadau a materion a allai effeithio ar ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig. Ceir ffocws ar addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda pholisi Medr yn rhoi cymorth i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae'r Fframwaith hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol y gweithlu trydyddol sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**